Derbynnydd Gwobr Gwirfoddoli Jiwbili Diemwnt Y Frenhines

# SNAP Cymru

## Anghenion Dysgu Ychwanegol

## Eiriolaeth Annibynnol



**Mae gennych hawl i gael gwrandawiad a bod eich barn yn cael ei chymryd o ddifrif.**

## Dweud eich dweud

Mae gennych hawl cael pobl i wrando arnoch a chymryd eich safbwyntiau o ddifri. Weithiau gall fod yn anodd dweud sut rydych yn teimlo. Gallwn eichhelpu trwy drefnu eiriolwr, sef person a all eich helpu i sicrhau eich bod yn caelgwrandawiad. Os oes gennych anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd, maecael mewnbwn i'r holl benderfyniadau a wneir amdanoch yn bwysig. Byddeiriolwr yn sicrhau bod pawb yn gwybod sut rydych yn teimlo.

## Sut allaf gael eiriolwr?

Siaradwch â'ch teulu, ysgol, coleg neu weithiwr cymdeithasol ynglŷn âchael eiriolwr. Gallwch hefyd gysylltu â SNAP Cymru yn uniongyrchol.Byddwn yn sicrhau bod pobl yn gwrando ar eich dymuniadau a'ch barn. Mae ein gwasanaeth yn rhad ac am ddim ac yn annibynnol.





## Felly, beth fydd eiriolwr yn ei wneud?

- Yn eich helpu i siarad drosoch eich hun neu'n siarad ar eich rhan os dyna rydych eisiau
- Yn gwrando ar eich pryderon ac yn eich helpu i weithredu arnynt
- Yn agored ac yn onest gyda chi
- Yn eich helpu i herio penderfyniadau
- Yn eich helpu i baratoi ar gyfer cyfarfodydd
- Yn esbonio i eraill sut rydych yn teimlo
- Yn esbonio wrthych beth sy'n digwydd a beth fydd yn digwydd
- Yn eich helpu i ddelio â problem os ydych yn meddwl gwneud cŵyn, honiad o wahaniaethu neu apêl

**Nid yw eiriolwr o reidrwydd yn gwneud pethau'n well. Efallai y byddrhai pethau na ellir eu newid, ond byddant yn sicrhau bod pawb yn gwybod sut rydych yn teimlo, pa ganlyniadau yr hoffech a'ch helpu i ddeall pam y gwneir y penderfyniad.**

Registered with



## Os oes angen help arnoch, cysylltwch â ni:

Llinell Gymorth: 0808 801 0608

E-bost: enquiries@snapcymru.org

www.snapcymru.org

@snapcymru SNAP Cymru

Mae gan bob plentyn a pherson ifanc hawliau. Maen nhw wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC). Mae gennych yr hawl i gael gwrandawiad a'ch cymryd o ddifrif (Erthygl 12) Gall gwasanaethau eirioli eich helpu i gael yr hawl hon.

Cwmni cyfyngedig 2832114 | Elusen gofrestredig1027599

## Pryd y gallwn ddefnyddio eiriolwr?

- Os ydych yn teimlo and oes neb yn gwrando are eich barn yn yr Ysgol, Coleg neu'r Awdurdod Lleol.
- Os ydych yn anhapus gyda'ch cefnogaeth
- Os oes angen help gyda'ch Cynllun Datblygu Unigol
- Os ydych yn teimlo nad ydych wedi cael eich trin yn deg
- Os oes angen help arnoch i wneud penderfyniadau yn ystod cyfnodtrosglwyddo o ysgol i goleg
- Os oes angen 'Cyfaill Agos' arnoch i'ch cefnogi gyda thribiwnly



**"Ges i'r cyfle i ddweud beth hoffwn ei wneud, beth syn'n annodd i mi a beth hoffwn ddigwydd"**



## Mae'r gyfraith yn dweud :

Pan fydd eich ysgol, coleg neu awdurdod lleol yn gweithio ar eich anghenion dysgu ychwanegol, mae'n bwysig iawn eu bod :

- Yn gofyn am eich barn, eich dymuniadau a'ch teimladau.
- Eich bod yn cymryd rhan gymaint â phosibl yn benderfyniadau amdanoch chi.
- Rydych yn cael gwybodaeth fel y gallwch fod yn rhan o benderfyniadau.
- Rydych yn cael cymorth fel y gallwch gael yr addysg orau bosibl.

**Fel person sydd â hawliau, dylech bob amser gael eich parchu a gwrando arno.**